**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dr Kathryn Chamberlain, Cadeirydd Swyddfa
Archwilio Cymru

28 Medi 2023

Annwyl Adrian / Kathryn,

Taliad costau byw

Diolch am ddod i'r sesiwn breifat gyda'r Pwyllgor ar 20 Medi 2023 i drafod eich Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2023-24.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r £442,000 o gyllid ychwanegol y gofynnir amdano i wneud taliad costau byw untro o £1,500 i staff Archwilio Cymru.

Rydym yn cydymdeimlo â phenderfyniad y Bwrdd wrth ofyn am yr amcangyfrif atodol hwn ac yn gwerthfawrogi eich sefyllfa ariannol a'r anawsterau a wynebir gan eich sefydliad wrth amsugno costau i wneud taliad o'r fath. Yn benodol, rydym yn cydnabod nad yw eich model ariannu yn caniatáu i chi gadw neu gario arian wrth gefn, ac nad oes llawer o hyblygrwydd i chi ariannu'r taliad hwn trwy rewi swyddi gwag, oherwydd y cysylltiad rhwng staffio a darparu incwm ffioedd.

Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi cael gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol dros yr haf yn dweud bod "rhaid rheoli dyfarniadau cyflog o'r fath o fewn y setliadau presennol". Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn "gorfod gwneud gostyngiadau mewn gwariant a gynlluniwyd, fel bod modd i'r taliad hwn o £1500 gael ei gynnwys o fewn ei chyllideb bresennol", ac y byddai'n "disgwyl i'n Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ddefnyddio dull tebyg a cheisio cynnwys y costau o fewn y setliadau cyllidebol presennol".

Mewn sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor ar 13 Medi 2023, nododd y Gweinidog hefyd na fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyllideb atodol nes iddi gyflwyno ei hail gyllideb atodol, yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

At hynny, nid yw gweithdrefnau ariannol y Senedd yn caniatáu i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ofyn yn unochrog am gyllid atodol i'w gytuno gan y Senedd ac mai dim ond drwy weithdrefnau cyllideb atodol y Senedd y gall Llywodraeth Cymru ddwyn ceisiadau o'r fath ymlaen.

Fel y gwyddoch, mae'n debygol y bydd y Pwyllgor yn ystyried Cynnig y Gyllideb Atodol 2023-24 ym mis Chwefror 2024, a bydd unrhyw benderfyniad i gytuno ar eich amcangyfrif atodol yn ddarostyngedig i benderfyniad gan y Senedd gyfan bryd hynny.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.